Cadw— er lles pawb.
For us all, to keep.



# Pecyn cymorth

## Cyngor ar gyhoeddusrwydd a marchnata i drefnwyr Digwyddiadau drysau agored

Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Open Doors
Drysau Agored

**Dathliad pensaerniaeth a threftadaeth fwyaf Cymru**
Wales' biggest celebration of architecture and heritage

# Cyflwyniad

Mae Cymru yn un o'r 50 o wledydd sy'n rhan o Drysau Agored — digwyddiad blynyddol sy'n cael ei adnabod yn rhyngwladol fel Diwrnodau Treftadaeth Ewropeaidd.

Wedi'i hariannu a'i threfnu gan Cadw, y rhaglen Drysau Agored yw'r dathliad di-dâl mwyaf o bensaernïaeth a threftadaeth yng Nghymru, a'r digwyddiad gwirfoddoli mwyaf yn y sector treftadaeth. Mae'r ŵyl yn rhoi mynediad am ddim i gannoedd o safleoedd hanesyddol ar hyd a lled y wlad, ac yn rhoi cyfle i ymwelwyr fwynhau rhaglen yn llawn o weithgareddau a digwyddiadau arbennig a gynhelir yn ystod mis Medi.

Mae'r digwyddiad yn llwyddiant ysgubol bob blwyddyn. Yn ogystal â helpu i ddenu miloedd o ymwelwyr o wledydd o bob cwr o'r byd i Gymru, bydd hefyd yn annog cymunedau Cymru i fwynhau eu treftadaeth a'u diwylliant lleol.

Os ydych chi'n ystyried cymryd rhan eleni, a chynnal digwyddiad yn eich safle chi, bydd angen i chi feddwl am hyrwyddo'r digwyddiad.

Bydd Cadw yn cynnal ymgyrch cyhoeddusrwydd a marchnata genedlaethol i hyrwyddo'r rhaglen Drysau Agored drwyddi draw, ond mae marchnata'n lleol ac ar lawr gwlad yn ffordd effeithiol iawn o helpu i hyrwyddo digwyddiadau, a bydd hyn, yn y pen draw, yn helpu i ddenu mwy o ymwelwyr i'ch safle chi.

**Mae'r pecyn hwn yn cynnwys awgrymiadau, pwyntiau pwysig a gwybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu i hyrwyddo'ch digwyddiad Drysau Agored yn y ffordd orau bosib.**

# Rhoi gwybod i'ch papur newydd lleol

Fel rhan o'i ymgyrch cyhoeddusrwydd a marchnata genedlaethol, bydd Cadw yn targedu'r cyfryngauyng Nghymru ac yn y DU, gan rannu gwybodaeth am raglen ddigwyddiadau Drysau Agored drwyddi draw. Bydd y newyddion a'r erthyglau ar gyfer y wasg yn hyrwyddo'r ŵyl yn ei chyfanrwydd ac yn helpu i annog ymwelwyr i fynd i amrywiol ddigwyddiadau Drysau Agored ar hyd a lled y wlad.

Felly beth yw'ch rôl chi? Mae papurau newydd lleol yn ffordd ddelfrydol o wneud yn siŵr bod eich digwyddiad yn cael cyhoeddusrwydd yn eich ardal chi — felly cofiwch roi gwybod iddynt! Mae papurau newydd wastad yn chwilio am straeon, felly bydd newyddiadurwyr lleol yn falch iawn o glywed gennych chi.

**Dyma arweiniad syml i'ch helpu i sicrhau bod erthygl am eich digwyddiad yn ymddangos yn y papur:**

**Ewch ati i lunio rhestr gyfryngau:** chwiliwch ar y rhyngrwyd neu yn y papur er mwyn cael manylion cyswllt eich papur newydd lleol. Mae'n syniad da gwneud nodyn o unrhyw newyddiadurwyr penodol yr hoffech chi gysylltu â nhw, er mwyn i chi allu gofyn am gael siarad â nhw'n bersonol.

**Ysgrifennwch ddatganiad i'r wasg:** paratowch ddatganiad i'r wasg un dudalen o hyd, gan nodi dyddiad, amser a lleoliad eich digwyddiad di-dâl, yn ogystal â'r gweithgareddau fydd ar gael.

**Ffoniwch eich papur lleol:** anfonwch eich datganiad i'r wasg dros e-bost yn gyntaf, ond gwnewch yn siŵr eich bod yn codi'r ffôn wedyn i estyn gwahoddiad i'r papur i'r digwyddiad ei hun — efallai y bydd yn dymuno anfon ffotograffydd i dynnu ychydig o luniau!

**Peidiwch â chanolbwyntio ar gyfryngau print yn unig:** cysylltwch â'ch gorsafoedd radio lleol hefyd — efallai y byddant yn awyddus i drefnu cyfweliad â chi. Mae gorsafoedd radio lleol yn ffordd wych o roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiad. Meddyliwch faint o bobl sy'n gwrando arnynt wrth deithio i'w gwaith ac ar y ffordd adref bob dydd.

**Meddyliwch am gyflwyno datganiad i'r wasg ar ôl y digwyddiad:** mae papurau newydd lleol wrth eu bodd yn cyhoeddi lluniau o ddigwyddiadau yn y gymuned. Gwnewch yn siŵr eich bod yn tynnu digon o luniau ar ddiwrnod y digwyddiad ac yn eu hanfon wasg gyda'r prif uchafbwyntiau e.e. faint o bobl ddaeth i'r digwyddiad ac ambell stori ddiddorol gan yr ymwelwyr.

**Yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR),** bydd angen i chi wneud yn siwr bod unrhyw un sy'n ymddangos yn eich lluniau wedi rhoi caniatâd cyn y gallwch chi eu hanfoni'r wasg.

## Angen help i ysgrifennu datganiad i'r wasg?

**Defnyddiwch ein templed ar dudalen 4 a 5 fel arweiniad.**



**Os byddwch chi'n llwyddo i gael cyfweliad gyda newyddiadurwr,** gwnewch yn siŵr eich bod yn ysgrifennu rhestr o'r negeseuon pwysig fel bod yr unigolyn sy'n cael ei gyf-weld yn gwybod beth i'w ddweud. Dylech gynnwys gwybodaeth ynglŷn â beth sy'n digwydd yn y digwyddiad, pam mae'r digwyddiad wedi ael ei drefnu, a rhywfaint o wybodaeth gefndir am yr wyl Drysau Agored.

**Os yw newyddiadurwr yn addo rhoi sylw i'ch digwyddiad, peidiwch â chymryd y bydd yn cofio. Codwch y ffôn arno ryw wythnos cyn y digwyddiad i'w atgoffa.**

# Postio ar y cyfryngau cymdeithasol

Ymunwch â'r sgwrs #DrysauAgored ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ffordd wych o hyrwyddo gweithgareddau a digwyddiadau lleol. Os oes gan eich safle neu'ch tirnod dudalen Facebook, Twitter neu Instagram — defnyddiwch hi

**Awgrym: Os nad oes gennych chi fynediad at dudalen bwrpasol, cysylltwch â'ch cyngor lleol a gofyn iddo a fyddai'n fodlon hyrwyddo'r digwyddiad i chi.**

Gall y syniad o hyrwyddo digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol fod yn ddigon i'ch dychryn os nad ydych chi wedi gwneud hynny o'r blaen. Peidiwch â phoeni, mae'n ddigon syml gydag ychydig bach o arweiniad. Dyma rai awgrymiadau i'ch helpu i fanteisio i'r eithaf ar y broses o hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol:

## 5 pwynt pwysig ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

**Ysgrifennwch gynllun ar gyfer y cynnwys fydd yn ymddangos ar y cyfryngau cymdeithasol**— mae'n haws o lawer postio gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol os ydych chi'n cael trefn ar eich cynnwys ymlaen llaw.

**Defnyddiwch ddelweddau fydd yn tynnu sylw, a fideo os gallwch chi, i gyd-fynd â phob neges fydd yn cael ei phostio ar y cyfryngau cymdeithasol** — mae tystiolaeth yn dangos bod eitemau sy'n edrych yn dda yn gwneud yn well.

**Defnyddiwch hashnodau perthnasol er mwyn bod yn rhan o sgyrsiau,**
e.e.
#DrysauAgored
#Cymru
#Mynediadamddim

**Cofiwch, mae'r rhyngrwyd yn gyfrwng parhaol (hyd yn oed os byddwch chi'n gwasgu dileu!)** — felly meddyliwch bob tro cyn postio.

**Defnyddiwch bit.ly i wneud dolenni gwe hir yn fyrrach** — bydd yn arbed lle ac yn edrych yn daclusach o lawer, a gallwch gadw golwg ar faint o bobl sydd wedi clicio i weld rhagor o wybodaeth.

## 5 pwynt pwysig ar gyfer Facebook

Trefnwch i bostio negeseuon i hyrwyddo'ch digwyddiad fin nos ac ar benwythnosau er mwyn manteisio ar y traffig.

Cadwch eich negeseuon yn gryno ar y cyfryngau cymdeithasol. Dydych chi ddim eisiau i'ch dilynwyr orfod clicio'r botwm 'gweld mwy'.

Peidiwch byth â phostio dim heb gynnwys llun, fideo neu ragolwg o ddolenni gwe. Os oes gennych chi unrhyw amheuaeth, mae gan holl ddigwyddiadau Drysau Agored dudalen ddigwyddiadau bwrpasol ar wefan Cadw, felly gallwch bob amser gynnwys dolen at hyn. Y maint a argymhellir ar gyfer lluniau ar Facebook yw 1200 x 628pm, ac argymhellir bod maint fideos yn dilyn cymhareb agwedd 4:3 ac yn ddim mwy na 1.75GB.

Ewch ati i greu digwyddiad Facebook ar gyfer eich digwyddiad Drysau Agored, a rhowch wahoddiad i'ch dilynwyr.

Cadwch olwg ar sylwadau a negeseuon blwch derbyn sy'n ymwneud â'ch digwyddiad — a chofiwch ymateb iddynt.

## 5 pwynt pwysig ar gyfer Twitter

Wyddech chi fod negeseuon trydar sy'n cynnwys delweddau yn cynhyrchu dros 300% yn fwy o ddiddordeb na'r rheini sydd ddim yn cynnwys delweddau? Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys cymaint o luniau â phosib ar Twitter — mae defnyddwyr eraill yn fwy tebygol o lawer o rannu negeseuon sy'n cynnwys lluniau.

Y maint sy'n gweithio orau ar gyfer lluniau ar Twitter yw 1024 x 512px.

Cofiwch roi @mensh er mwyn rhyngweithio â defnyddwyr eraill — yn enwedig os ydych chi'nawyddus iddynt weld eich neges. Er enghraifft, os byddwch chi'n tagio @cadwcymru fel bod eich neges yn ymddangos yn ein hysbysiadau ni, bydd Cadw yn ail-drydar eich neges i helpu i hyrwyddo'ch digwyddiad ymhellach.

Defnyddiwch hashnodau i ymuno â'r sgwrs am #DrysauAgored ar Twitter a gwneud yn siŵrbod yr hyn rydych chi'n ei bostio yn cael sylw. Ond #peidiwch #defnyddio #gormod #ohonyn #nhw — mae hynny'n gallu edrych yn flêr.

5. Peidiwch ag anwybyddu defnyddwyr sy'n rhoi adborth cadarnhaol i'ch negeseuon trydar — dylech bob amser hoffi pethau maen

## 5 pwynt pwysig ar gyfer Instagram

Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio delweddau o ansawdd uchel sy'n rhoi'r darlun gorau posib o'ch safle treftadaeth a'r gweithgareddau y byddwch yn eu cynnig yn eich digwyddiad.

Defnyddiwch yr hidlyddion a'r offer golygu sy'n rhan o Instagram er mwyn gwneud i'ch cynnwys edrych yn well byth — ond cymerwch ofal, gall golygu gormod wneud i ddelwedd neu fideo edrych ynwaeth.

Defnyddiwch hashnodau i fod yn rhan o'r sgwrs am #DrysauAgored ar-lein.

Defnyddiwch straeon Instagram yn ystod eich digwyddiad Drysau Agored fel bod eich dilynwyr yn gallu gweld beth rydych chi'n ei wneud.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymateb i sylwadau a negeseuon uniongyrchol am eich digwyddiad.



# Defnyddio posteri er mwyn creu cyhoeddusrwydd

**Mae Cadw wedi darparu amrywiaeth o bosteri i'ch helpu i roi cyhoeddusrwydd i'ch digwyddiad — gallwch ddod o hyd i'r rhain yn cadw.gov.wales/open-doors/resources/?lang=cy.** Mae'n ddigon hawdd lawrlwytho, argraffu a llenwi'r bylchau, a gofyn i gaffi neu lyfrgell neu lefydd eraill amlwg yn y gymuned i'w dangos.

Neu gallwch greu eich poster eich hun:

Dylai eich poster fod yn drawiadol fel bod y cyhoedd yn stopio ac yn ei ddarllen.

**OND — gwnewch yn siŵr ei fod yn syml.** Ni ddylai gynnwys mwy nag un neu ddau o bwyntiau syml am eich digwyddiad, ynghyd â'r dyddiad a'r amser. Gwnewch yn siŵr bod logo Drysau Agored ar bopeth er mwyn i bobl ddeall eich bod yn rhan o ddigwyddiad mawr cenedlaethol ac uchel ei barch!

Mae'n ddigon hawdd defnyddio Microsoft World neu raglen Paent i gynllunio poster, ond i gael gorffeniad proffesiynol rhowch gynnig ar lwyfan ar-lein fel Canva. Gallwch ei ddefnyddio ar eich cyfrifiadur neu lawrlwytho'r ap di-dâl ar eich ffôn hyd yn oed.

Gwiriwch a gwiriwch eto cyn argraffu er mwyn gwneud yn siŵr bod popeth yn gywir.

# Annog pobl eraill i rannu'r neges

**Oes gan eich cydweithwyr neu wirfoddolwyr y safle eu sianeli cyfryngau cymdeithasol eu hunain?** Os oes, cofiwch eu hannog i rannu negeseuon am eich cysylltiad â Drysau Agored ar eu cyfrifon personol er mwyn helpu i ledaenu'r neges am y digwyddiad sydd ar y gweill.

Mae hysbysebu ar lafar gwlad yn effeithiol hefyd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrth eich ffrindiau, eich teulu a phobl sydd ddim yn rhan o'ch cylch cymdeithasol chi am y digwyddiad — bydd newyddion yn teithio fel tân gwyllt pan fydd pobl yn dechrau siarad!

Cofiwch hefyd nad ar gyfer newyddiadurwyr yn unig y mae datganiadau i'r wasg. Efallai y byddai cymdeithasau hanes, grwpiau cymunedol ac ysgolion lleol yn hoffi trefnu trip i'ch safle chi, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn anfon yr holl wybodaeth atyn nhw ddigon ymlaen llaw.



# Templed datganiad i'r wasg

**Datganiad i'r Wasg**

**[Rhowch y dyddiad]**
**[Rhowch logo Drysau Agored a logo'r lleoliad / safle — os oes un]**

**[Pennawd Trawiadol i Ddenu Sylw'r Cyfryngau]** e.e. Canolfan Dreftadaeth Heddlu De Cymru yn ail agor ei drysau — gan gynnig mynediad am ddim i ymwelwyr!

**[Cyflwyniad i'r digwyddiad]** Beth am fentro i ddyfnderoedd Pencadlys yr Heddlu ym Mhen-y-bont ar Ogwr i weld Canolfan Dreftadaeth Heddlu De Cymru ar ei newydd wedd. Fis Medi, bydd cyfle i ymwelwyr ddarganfod hanes plismona yn Ne Cymru — a hynny am ddim.

**[Rhowch ddisgrifiad, dyddiadau ac amseroedd]** e.e. Bydd y digwyddiad di-dâl hwn yn cael ei gynnal rhwng 11am a 3pm ddydd Gwener 21 a dydd Sadwrn 22 Medi, gan roi cyfle prin i bobl leol ac ymwelwyr fel y'i gilydd gael golwg ar un o'r casgliadau mwyaf diweddar o arteffactau'r heddlu yn y DU. Ydych chi'n ddigon dewr i gamu i mewn i ystafell gyhuddo a chell o oes Fictoria?

**[Rhowch ragor o wybodaeth gefndir]** Yn dyddio'n ôl o oes y Celtiaid hyd heddiw, mae'r casgliad yn cynnwys dyfeisiau cyfathrebu o'r blynyddoedd a fu, gwisgoedd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a llawer iawn o offer a chyfarpar yr heddlu. Mae yna hefyd gabinet o arfau troseddwyr sydd wedi dod o strydoedd Cymru — diolch byth ei fod dan glo!

**[Rhowch wybodaeth am Drysau Agored]** Mae'r digwyddiad yn rhan o Drysau Agored, sef gŵyl flynyddol sy'n dathlu treftadaeth a diwylliant cyfoethog Cymru. Mae'r digwyddiad poblogaidd hwn yn cael ei drefnu a'i ariannu gan Cadw bob blwyddyn, a bydd modd i ymwelwyr gael mynediad am ddim i gannoedd o safleoedd hanesyddol, adeiladau eiconig, tirnodau a lleoedd anarferol ar draws Cymru drwy gydol mis Medi.

**[Rhowch ddyfyniad gan aelod o staff / gwirfoddolwr / un o drefnwyr y digwyddiad]:** Dywedodd Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, Matt Jukes, ei bod yn bleser gallu rhannu treftadaeth gyfoethog yr Heddlu â phobl leol a phobl sy'n ymweld â Chymru.

Meddai, "Mae ein treftadaeth yn bwysig, nid dim ond i'r Heddlu, ond i'r gymuned hefyd. Mae ein Canolfan Dreftadaeth, sydd wedi cael ei hadnewyddu'n ddiweddar, yn adlewyrchu rôl yr heddlu ar draws De Cymru drwy gyfnodau o ryfel a chwyldro cymdeithasol aruthrol."

"Mae ein hanes yn adlewyrchu achosion o drasiedi a llwyddiant yn ein cymunedau, ac rydym yn falch o fod yn rhan o gynllun sy'n mynd ati i ddatgelu'r straeon, y lleoedd a'r bobl sy'n ein cysylltu â'n gorffennol. "

**[Rhowch wybodaeth ynglŷn â sut i ddod i'r digwyddiad]** Mae angen trefnu i ddod i'r digwyddiad hwn. I gael y manylion yn llawn ac i archebu lle, ewch i **[rhowch y ddolen]**, **dilynwch @xxx ar Twitter neu gwasgwch 'Hoffi' xxx** ar Facebook.

## Nodiadau i olygyddion:

**[Dyma le da i roi gwybodaeth ychwanegol am eich digwyddiad, yn ogystal â'r manylion cyswllt hollbwysig a fydd yn galluogi newyddiadurwyr i gysylltu â chi].**

I gael rhagor o wybodaeth am y digwyddiad, cysylltwch â [rhowch enw] o [rhowch enw'r safle neu'r lleoliad] drwy ffonio [rhowch rif ffôn] neu anfon neges e-bost at [rhowch gyfeiriad e-bost].

Gwybodaeth am
**[Nodwch lle bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal]:**

**[Rhowch ragor o wybodaeth am y lleoliad a'r digwyddiad ei hun]**
e.e. Mae Canolfan Dreftadaeth Heddlu De Cymru ym Mhencadlys yr Heddlu, Pen-y-bont ar Ogwr, yn gartref i un o'r casgliadau mwyaf o arteffactau'r heddlu yn y DU.

## Drysau Agored:

Mae Cymru yn un o'r 50 o wledydd sy'n rhan o Drysau Agored — sy'n cael ei adnabod yn rhyngwladol fel Diwrnodau Treftadaeth Ewropeaidd. Dyma'r dathliad di-dâl blynyddol mwyaf o bensaernïaeth a threftadaeth yng Nghymru a'r DU yn ehangach, a'r digwyddiad gwirfoddoli mwyaf yn y sector. Mae'n rhoi cyfle i'r cyhoedd gael mynediad am ddim at elfennau newydd o'r dreftadaeth adeiledig, ac yn denu ymwelwyr o bob cwr o'r byd i Gymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Drysau Agored, ewch i cadw.gov.wales/open-doors/?lang=cy.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am gymryd rhan yn yr ŵyl, anfonwch neges e-bost at: opendoors@gov.wales neu ffoniwch dîm Drysau Agored ar 03000 256000.

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG44923